Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Codi Ymwybyddiaeth o Hawliau Plant yng Nghymru



## Rydym eisiau Cymru i bob plentyn: Cymru lle mae hawliau plant yn hysbys ac yn cael eu deall

Mae **Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP)** yn egluro hawliau pob plentyn a pherson ifanc hyd at 18 oed.

Yn 2011, pasiodd Cymru **Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru)**, gan wneud CCUHP yn rhan o gyfraith Cymru. Rhaid i Weinidogion Cymru helpu pobl i ddeall hawliau plant yng Nghymru.

### Mae gan ein gwefan wybodaeth am hawliau plant ar gyfer plant.

Hawliau plant: Gwybodaeth i blant - LLYW.CYMRU
**www.llyw.cymru/hawliau-plant-gwybodaeth-plentyn**

### Gallwch hefyd gael hyd i wybodaeth drwy:

Cymru Ifanc - Plant yng Nghymru
**www.childreninwales.org.uk/cy/plant_a_phobl_ifanc/cymru_ifanc/**

**Comisiynydd Plant Cymru**
**www.complantcymru.org.uk/**


## Sut mae codi ymwybyddiaeth plant o hawliau plant?

### Cymru Ifanc:

Rydym yn ariannu cynllun 'Cymru Ifanc' sy'n helpu plant a phobl ifanc:

- i ddysgu am eu hawliau
- i sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed gan Weinidogion Cymru ac eraill sy'n gwneud penderfyniadau
- i gymryd rhan mewn gweithgareddau a dysgu sgiliau newydd

Bob blwyddyn, mae pobl ifanc ledled Cymru yn dod at ei gilydd yng Ngŵyl Cymru Ifanc i ddathlu hawliau plant.





### Cylch Blynyddol Cysylltu â'r Ifanc:

Mae pob un o Weinidogion Cymru yn ymrwymo i gyfarfod â phlant a phobl ifanc i ddysgu am yr hyn sy'n bwysig iddynt.

Drwy siarad â'r Gweinidogion, mae plant a phobl ifanc yn helpu i lunio polisïau a chyfreithiau yng Nghymru.

### Addysg:

Mae hawliau plant yn rhan o'r Cwricwlwm i Gymru newydd

### Cyhoeddiadau:

Rydym yn cyhoeddi gwybodaeth mewn ffyrdd y gall plant eu deall.



### Comisiynydd Plant Cymru:

Rydym yn penodi Comisiynydd Plant Cymru i gefnogi plant a phobl ifanc yng Nghymru trwy:

- eu helpu i ddysgu am eu hawliau.
- rhoi cyngor iddynt os ydynt yn credu eu bod wedi cael eu heffeithio'n negyddol.
- edrych ar sut mae penderfyniadau a wneir gan Lywodraeth Cymru yn effeithio ar blant a phobl ifanc.
- siarad o blaid plant yng Nghymru ar y materion sy'n effeithio arnynt.



## Sut mae codi ymwybyddiaeth oedolion o hawliau plant?

### Y Ffordd Gywir: Dull gweithredu seiliedig ar hawliau plant:

Rydym yn cefnogi ‘Y Ffordd Gywir’: cynllun a grëwyd gan Gomisiynydd Plant Cymru sy’n cynghori pobl i roi lle canolog i hawliau plant yn eu gwaith. Rydym yn hyrwyddo’r cynllun er mwyn inni wella’r ddealltwriaeth o hawliau plant.

### Hyfforddiant:

Er mwyn helpu ysgolion ac athrawon i gyflwyno’r cwricwlwm newydd, rydym wedi datblygu adnoddau i wella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o CCUHP a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau.

### Magu Plant. Rhowch amser iddo:

Rydym yn gweithio i wella dealltwriaeth rhieni o hawliau plant.

Mae’r ymgyrch ‘Magu Plant. Rhowch amser iddo’ yn rhoi cyngor ymarferol ac arbenigol i rieni am ddim ar gefnogi eu plant o’u genedigaeth hyd at fod yn oedolion.

### Cynllun Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar:

Rydym wedi creu’r Cynllun hwn i helpu babanod i gael:

- y dechrau gorau mewn bywyd.
- yr hawl i dyfu, dysgu a chwarae mewn amgylchedd hapus, iach a diogel.

Rydym wedi creu adnoddau arbennig i rieni a phobl sy’n gweithio gyda phlant ifanc iawn ddeall sut mae hawliau plant yn berthnasol i fabanod a phlant bach.

### Cefnogi Gwasanaethau Cyhoeddus:

Mae gwasanaethau cyhoeddus yn cynnwys gwasanaethau fel Cynghorau, Gwasanaethau Iechyd, yr Heddlu, Gwasanaethau Tân a Sefydliadau Gwirfoddol.

Rydym yn helpu gwasanaethau cyhoeddus i ddeall hawliau plant trwy:

- ddarparu hyfforddiant ar Hawliau a Chyfranogiad Plant.
- cynnig cyfleoedd i’r gwasanaethau hyn ddysgu oddi wrth ei gilydd.





OGL © Hawlfraint y Goron 2025, Llywodraeth Cymru, WG51662